| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hwyluso trafodaeth ac adborth ar y meysydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor, ac i gadarnhau eitemau rhaglen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. A yw'n briodol i'r pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol ym mhob cyfarfod. Gall yr eitemau canlynol fod yn briodol (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn):

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
- Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
- Tâl Aelodau

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Gweithgor Aelodau ar Sut y Cynhelir Cyfarfodydd

4.1 Roedd adroddiad ar y gweithgor hwn wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol. Nid yw’r grŵp wedi’i ffurfio’n llawn eto o ran penodi aelodau, ac felly nid yw wedi dechrau ar ei waith.

4.2 Gellir rhoi diweddariad llafar o'r sefyllfa ddiweddaraf wrth ystyried yr adroddiad rhaglen waith hon.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw’r adroddiad yn cyfrannu’n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost o ystyried y rhaglen gwaith i’r dyfodol a’r diweddariadau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni nodwyd unrhyw risgiau penodol o ystyried yr adroddiad hwn. Mae adolygu’r rhaglen gwaith i’r dyfodol a gwybodaeth gysylltiedig yn nodwedd bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011